



Adroddiad ar adolygiad ymarfer: Camfanteisio'n rhywiol ar blant yn Rochdale

Bwriad yr astudiaethau achos hyn yw tynnu sylw at broblemau'n ymwneud â gweithredu ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith aml-asiantaethol. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a gofyn cwestiynau ynghylch dulliau atal mewn sefyllfaoedd lle mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn digwydd. Maent wedi'u crynhoi i helpu gyda'r broses hon, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau ar yr adolygiadau.

Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Edrychodd yr adolygiad achos difrifol ar chwech o ferched y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol yn Heywood, Rochdale rhwng 2007 a 2010.

Edrychodd ail adolygiad achos difrifol ar achos ar wahân yn ymwneud â seithfed merch.

Cafodd naw dyn o Rochdale ac Oldham eu dedfrydu i garchar am hyd at 19 mlynedd ym mis Mai 2012 ar ôl eu cael yn euog o droseddau yn cynnwys trais rhywiol.

Gwadodd Syr Peter Fahy, prif gwnstabl Heddlu Manceinion Fwyaf, fod ei swyddogion wedi methu ag ymchwilio i honiadau o drais rhywiol a wnaed gan ferched ifainc cyn penderfynu peidio ag erlyn yn 2008.

Y farn a gyflwynodd oedd, yn y rhan fwyaf o'r achosion hynny, nad oedd y merched yn gweld eu hunain fel dioddefwyr ac nad oeddent yn barod i wneud cwynion. Yn ôl yr heddlu, nid oedd amryw o ferched yn Rochdale yr oedden nhw'n credu eu bod yn cael eu cam-drin yn barod i siarad â nhw a, hyd yn oed os byddent yn siarad, ni fydden nhw'n dweud wrthyn nhw beth oedd yn digwydd, heb sôn am wneud cwyn gan y byddai hynny'n golygu cychwyn y system cyfiawnder troseddol.

Roedd hi'n glir bod pump o'r merched angen help ac ymyrraeth gan asiantaethau diogelu cyn i'r cam-drin gychwyn.

Amgylchiadau'r unigolion a'r heriau a oedd yn eu hwynebu

Roedd chwech o'r saith person ifanc a ystyriwyd yn yr adolygiad wedi bod angen help ac, ar adegau, ymyrraeth fwy rhagweithiol gan asiantaethau diogelu yn ystod y blynyddoedd cyn y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol i'w hamddiffyn rhag profiadau niweidiol tu hwnt megis esgeulustod, trais domestig, problemau iechyd meddwl rhieni a chamddefnyddio sylweddau.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ymatebion cydgyssylltiedig a ystyriodd y risgiau hyn. Yn ôl yr adroddiadau, pe bai'r dull hwn wedi'i ddefnyddio, mae'n rhaid y byddai wedi bod yn bosibl i'r ffaith bod y bobl ifanc hyn yn agored i niwed fod wedi'i asesu ac ennyn ymateb yn gynharach o lawer.

Beth ddigwyddodd?

Heddlu Manceinion Fwyaf (GMP) – Methu ag adnabod achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn y cyfnodau cynnar.

Gwasanaethau Cymdeithasol Rochdale – Diffyg blaenoriaeth sefydliadol yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, tîm dyletswydd ac asesu ansefydlog a system ddyletswydd "gwbl ddi-drefn".

Gwasanaethau Iechyd – Roedd gan feddygon teulu wybodaeth glir bod rhai o'r merched yn wynebu risg a allai fod wedi eu helpu i nodi'r posibilrwydd o gamfanteisio rhywiol yn gynharach.

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) – Roedd y gallu i adnabod camfanteisio rhywiol ar blant yn y blynyddoedd cynnar yn wael iawn, gan arwain at gollu cyfleoedd i erlyn yn 2008.



Pam y digwyddodd?

Wrth geisio ateb y cwestiwn pam fod problemau o'r fath wedi datblygu a phara mor hir, mae'r adroddiadau'n amlinellu'r methiannau canlynol ar draws y system:

- anawsterau tymor hir wrth geisio cyflawni gwaith aml-asiantaethol effeithiol – ar lefel uwch ac mewn ymarfer gweithredol
- methiant gan reolwyr strategol i ganolbwyntio ar ymarfer diogelu arferol ac i ddeall sut yr oedd yn cael ei gyflawni
- diffyg diwylliant gwerthuso sy'n canolbwyntio ar brofiad pobl ifanc, canlyniadau ac ymyriadau effeithiol
- prinder adnoddau yn arwain at lwythi gwaith mawr a phenderfyniadau'n cael eu dylanwadu'n sylweddol gan y gyllideb ar draul ymarfer a fyddai'n diwallu anghenion plant.



Argymhellion yr adroddiad

Wrth adolygu gwaith yr asiantaethau rhwng 2003 a 2012, nododd yr adolygiadau batrwm eang o wendidau a methiannau ar draws pob asiantaeth ar lefel sefydliadol, ond hefyd o ran ymarfer rhai unigolion. Mae'r adroddiadau'n dod i'r casgliad bod natur ailadroddus y methiannau hyn yn dangos problemau a rhwystrau sylfaenol ar lefel strategol dros gyfnod o flynyddoedd a bod hyn yn tansilio gallu'r asiantaethau i amddiffyn a diogelu pobl ifanc.

Yn ogystal, mae'r adroddiadau'n nodi annigonolrwydd yn y meysydd allweddol canlynol:

- polisi a gweithdrefnau naill ai ddim ar gael neu ddim yn ddealladwy a ddim yn cael eu rhoi ar waith ar y rheng flaen
- diffyg goruchwyliaeth, her ac arolygiaeth o safon gan reolwyr llinell
- pwysau ar adnoddau a llwythi gwaith mawr mewn asiantaethau allweddol yn cyfrannu at anhrefn ac, ar adegau, ymdeimlad o ddiymadferthedd
- polisiâu, diwylliant ac agweddau o fewn llawer o'r asiantaethau nad oeddent yn help mawr wrth weithio gyda'r glasoed; a fframweithiau perfformiad sy'n canolbwyntio ar ymarfer meintiol yn hytrach nag ansawdd yr ymarfer neu ddealltwriaeth o daith y plentyn trwy wasanaethau a chanlyniadau.

Dyfyniad Griffiths, S. (2013) *The overview report of the serious case review in respect of Young People 1,2,3,4,5 & 6*. Rochdale: Rochdale Borough Safeguarding Children Board.